Y Comisiwn Etholiadol

Trosolwg – DU a GI

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr mewn refferenda sydd eisiau deall sut mae rhoddion yn cael eu rheoleiddio.

Cynnwys:


Beth sy'n cyfrif fel rhodd

Derbyn rhoddion

Prisio rhoddion

Cofnodi a datgan rhoddion

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio'**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig sydd eisiau deall sut y rheoleiddir rhoddion.

## Mae hyn yn cynnwys:

- Beth sy'n cyfrif fel rhodd
- Pryd y gallwch chi dderbyn rhoddion
- Prisio rhoddion
- Cofnodi rhoddion
- Cofnodi rhoddion

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

## Papurau arbenigol

- Nawdd
- Rhoddion oddi wrth ymddiriedolaethau

2

# Crynodeb

Rheoleiddir rhoddion i ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig gan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae hyn yn golygu pan ydych chi'n derbyn rhodd, mae rhaid ichi wiro y gallwch chi ei derbyn, ei chofnodi a mewn achosion penodol, ei hadrodd inni.

Mae'r trosolwg hwn yn egluro'r rheolau, gan ddweud wrthych ble gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolaeth ar ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferenda. Maen nhw'n yndrin â rhoddion, benthyciadau a gwariant. sy'n perthyn i'r ymgyrch.

I gael rhagor o wybodaeth ar y rheolau a phryd mae angen ichi gofrestru gyda ni, gweler Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rheolau ar roddion.

Mae rhaid cofnodi rhai rhoddion a'u hadrodd inni arôl y refferendwm. Rydyn ni'n cyhoeddi'r adroddiadau hyn mewn cofrestr ar ein safwe.

Mae'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn wahanol, gan eu bod yn adrodd inni bob chwarter a nid yn unig ynghylch etholiadau neu refferenda. Gallwch chi ddod o hyd i ganllawiau eraill ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar ein safwe.

Yn y canllawiau hyn, rydyn ni'n defnyddio 'chi' i gyfeirio at berson cyfrifol cofrestredig ymgyrchwr.

Hefyd mae rhaid ichi ddilyn y rheolau ar fenthyciadau, gan gynnwys cyfleusterau credyd a gwarantau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o fenthyciadau i ymgyrchwyr refferendwm

# Pwy sy'n gyfrifol am roddion?

Pan yw ymgyrchwyr yn cofrestru gyda ni, mae rhaid iddyn nhw hefyd gofrestru rhywun fel ei 'berson cyfrifol'. Mae rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ei fudiad yn dilyn y rheolau ar roddion.

Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas o fewn y mudiad i sicrhau yr ymdrinir â rhoddion yn gywir.

Os ydych chi wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchwr unigol, chi eich hunan sy'n gyfrifol am roddion.

# Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir:

- Tuag at eich gwariant ar yr ymgyrch
- Heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

a sydd â gwerth o dros £500.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- Rhodd o arian neu eiddo arall.
- Nawdd ar gyfer digwyddiad neu gyhoeddiad.
- Taliadau tanysgrifiad neu gysylltiad.
- Defnydd o swyddfa heb dâl neu â gostyngiad arbennig

O dan PPERA, dydy unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai ddim yn rhodd.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor ar nawdd yn Papur arbenigol: Nawdd.

### Pa fath o roddion mae'r rheolau'n ymdrin â nhw?

Mae'r rheolau'n ymdrin â'r holl roddion a roddir tuag at wariant eich ymgyrch, hyd yn oed os ydych chi'n eu derbyn cyn man cychwyn cyfnod y refferendwm sydd o dan reolaeth.

Dydy'r rheolau ddim yn ymdrin â rhoddion rydych chi'n eu derbyn:

- Tuag at wariant nad yw o dan reolaeth. Er enghraifft, daflenni a ddefnyddir cyn bod cyfnod y refferendwm yn cychwyn.
- Trwy godi arian cyffredinol nad yw'n gysylltiedig â'r ymgyrch.

Am ragor o wybodaeth ar wariant yn ystod yr ymgyrch a chyfnodau sydd o dan reolaeth, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

## Oddi wrth bwy allwch chi dderbyn rhodd?

Gallwch chi dderbyn rhoddion oddi wrth roddwyr a ganiateir yn unig.

Rhoddwr a ganiateir yw:

Pwysig

- Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Etholwyr DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai hynny sy'n gadael cymynroddion.
- Mwyafrif y cwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU.
- Undeb Llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU.
- Cymdeithas Adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) sydd wedi'i chofrestru yn y DU. sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas Lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig sy'n seiliedig yn y DU sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Am ragor o wybodaeth ar sut i wiro ganiatâd, gweler y ddogfen hon:

- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

Hefyd gallwch chi dderbyn rhoddion oddi wrth rhai fathau o ymddiriedolaeth. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn Papur arbenigol: Rhoddion oddi wrth ymddiriedolaethau.

Pwysig

Mae rhaid ichi beidio â derbyn rhoddion oddi wrth blaid wleidyddol, oni bai eich bod wedi cael eich enwi fel yr ymgyrchwr arweiniol yn y refferendwm.

# Suy ydych chi'n penderfynnu os gallwch chi dderbyn rhodd?

Pan ydych chi'n derbyn unrhyw rodd sy'n fwy na £500, mae rhaid ichi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rodd yn dod oddi wrth ffynhonnell a ganiateir.

Mae 30 diwrnod gyda chi i wirio'r ffynhonnell ac i benderfynnu a allwch chi dderbyn y rodd.

Os nad yw'r rodd yn dod oddi wrth roddwr a ganiateir, neu os na allwch chi fod yn siwr o hunaniaeth y ffynhonnell am unrhyw reswm, mae rhaid ichi ei dychwelyd o fewn y cyfnod hwn o 30 diwrnod.

Os nad ydych chi'n gwneud hyn, ystyrir eich bod wedi'i derbyn, ac o bosibl byddwch chi a'ch mudiad yn agored i gamau gorfodi.

Os ydych chi wedi derbyn rhodd na chaniateir, dylech chi ddweud wrthyn ni gyn gynted â sy'n bosibl.

### Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os roddir rodd ichi ar ran rhywun arall, mae rhaid i'r person sy'n rhoi'r rodd ichi (yr asiant) ddweud wrthych chi:

- Fod y rodd ar ran rhywun arall.
- Manylion y rhoddwr gwirioneddol.

Os ydych chi'n meddwl bod rhywun o bosibl yn gweithredu fel asiant, mae rhaid ichi ddod o hyd i'r ffeithiau er mwyn ichi wneud y gwiriadau cywir.

Enghraifft o rywun yn gweithredu fel asiant yw ble mae trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo enillion cinio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian tuag at eich mudiad chi.

Os nad ydych chi'n siwr pwy y dylech chi ei drin fel rhoddwr (y person sy'n trosglwyddo'r rodd neu rywun arall), ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor.

Pwysig

## Pryd ydych chi'n 'derbyn' rhodd?

Fel arfer rydych chi'n 'derbyn' rhodd ar y diwrnod rydych chi'n derbyn
ei pherchenogaeth.

Er enghraifft:

- Os roddir taflenni ichi sy'n rhad ac am ddim, rydych chi'n derbyn y rodd wrth i'r taflenni gael eu trosglwyddo ichi.
- Os roddir siec ichi, rydych chi'n derbyn y rodd ar y y dyddiad mae'r siec yn clirio.
- Os drosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, rydych chi'n derbyn y rodd ar y dyddiad rydych chi'n gwirio eich cofnodion banc arlein neu ar y dyddiad mae'r banc yn eich hysbysu eich bod wedi'i derbyn.

## Sut ydych chi'n dychwelyd rhodd?

Os ydych chi'n gwybod pwy yw'r rhoddwr, mae rhaid ichi ei dychwelyd iddyn nhw.

Os yw'r rodd yn dod oddi wrth ffynhonnell amhenodol (er enghraifft rhodd ddienw o arian parod o £550), mae rhaid ichi ei dychwelyd i'r:

- Person a drosglwyddodd yr arian ichi; neu i'r
- Sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rodd.

Os na allwch chi adnabod y naill na'r llall, mae rhaid ichi anfon y rodd inni. Byddwn ni'n ei thalu i mewn i gronfa gyfun y llywodraeth.

Os enillir llog ar y rodd cyn ichi ei dychwelyd inni, gall eich mudiad ei gadw. Nid ymdrinir â hwn fel rhodd a does dim angen ei ddatgan.

## Rhoddion o £500 neu lai

Mae rhoddion o £500 neu lai y tu allan i ystod PPERA a does dim angen eu cofnodi na'u datgan.

Sut bynnag, byddwch yn wyliadwrus ynghylch sefyllfaoedd ble mae'n ymddangos bod rhoddwr yn ceisio osgoi PPERA trwy wneud cyfres o roddion bach, er enghraifft, os yw nifer o roddion o £400 yn cael eu gwneud oddi wrth yr un ffynhonnell mewn amgylchiadau sy'n debyg.

Os ydych chi'n meddwl bod hyn, o bosibl, yn digwydd, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor.

**Pwysig**

Mae'n drosedd i geisio osgoi'r rheolaeth ar roddion.

# Sut ydych chi'n prisio rhodd?

Gwerth rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn rydych chi'n ei dderbyn a'r swm rydych chi'n ei dalu amdano.

Os roddir eiddo, nwyddau neu wasanaethau ichi yn rhad ac am ddim, neu ar ostyngiad anfasnachol, mae rhaid ichi ei brisio ar gyfradd y farchnad.

Er enghraifft:

| Cyfradd y farchnad am nwyddau | - | Y pris rydych chi'n ei dalu | = | Gwerth rhodd |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £400 | = | £600 |

Neu:

| Cyfradd y farchnad am wasanaethau | - | Y pris rydych chi'n ei dalu | = | Gwerth rhodd |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £0 | = | £1,000 |

Os yw'r rhoddwr yn ddarparwr masnachol, dylech chi ddefnyddio'r cyfraddau maen nhw'n eu gofyn ar gyfer cwsmeriaid tebyg. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech chi ddarganfod faint mae darparwyr tebyg yn gofyn am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel cyfradd y farchnad.

Os nad ydych chi'n siwr o hyd sut i brisio rhodd neilltuol, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor os gwelwch tn dda.

Dylech chi gadw cofnod ar sut rydych chi wedi cyrraed eich prisiad.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai hynny sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg, megis gostyngiadau ar gyfer archebion swmpus neu ostyngiadau tymhorol.

Mae gostyngiadau anfasnachol yn ostyngiadau arbennig a roddir ichi, yn benodol, gan ddarparwyr.

## Prisio rhoddion ble mae'ch mudiad yn cynnal digwyddiad neu yn darparu nwyddau neu wasanaethau

Os yw eich mudiad yn cynnal digwyddiad, neu yn darparu nwyddau neu wasanaethau, mae unrhyw elw o'r digwyddiad (neu o'r nwyddau neu o'r gwasanaethau) yn cyfrif fel rhodd.

Gwerth unrhyw rodd yw'r elw a wneir gan y mudiad oddi wrth pob rhoddwr.

Dylech chi weithio allan faint mae'n costio i'r mudiad ar gyfer pob person sy'n mynychu'r digwyddiad, neu ar gyfer pob person sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau. Nesaf, didynnwch y swm hwn allan o'r hyn a dalwyd ichi gan bob person er mwyn darganfod gwerth y rodd.

Os yw'r digwyddiad yn cynnwys arwerthiant, am fwy o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol – prisio gwobrau arwerthiant

Er enghraifft:

| **Cost y digwyddiad** | ÷ | **Pobl yn y digwyddiad** | = | **Cost y person** |
|---|---|---|---|---|
| £25,000 | ÷ | 100 | = | £250 |

Felly:

| **Swm a dalwyd i'r person** | - | **Cost y person** | = | **Gwerth rhodd** |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £250 | = | £750 |

## Prisio rhodd trwy nawdd

Os yw rhywun yn noddi cyhoeddiad neu ddigwyddiad ar ran y mudiad, gwerth y rodd yw'r swm llawn maen nhw'n ei dalu.

Mae rhaid ichi beidio â gwneud unrhyw ostyngiad ar gyfer unrhyw les eu bod yn ei dderbyn oddi wrth y nawdd.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol: Nawdd

## Prisio mathau eraill o roddion

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar brisio swyddfeydd a staff sydd wedi'u trosglwyddo yn Papur arbenigol: Rhannu gwariant.

Os nad ydych chi'n siwr o hyd sut i brisio rhodd, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor os gwelwch yn dda.

# Pa gofnodion sydd angen ichi eu cadw?

## Rhoddion rydych chi wedi'u derbyn

Os ydych chi'n derbyn rhodd sy'n fwy na £500, mae rhaid ichi gofnodi'r manylion hyn:

- Enw a chyfeiriad y rhoddwr.
- Os yw'r rhoddwr yn gwmni, eu rhif cwmni cofrestredig.
- Y swm neu'r natur a gwerth y rhodd.
- Y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.
- Y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.

Mae rhaid ichi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr statudol berthnasol. Os yw'r rhoddwr yn etholwr tramor, mae rhaid ichi gofnodi ei gyfeiriad cartref. Mae hyn oherwydd na fydd cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os yw'r rhoddwr yn gymdeithas anghorfforedig, mae rhaid ichi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa. Mae hyn oherwydd nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig i gyfeirio ati.

Am ragor o wybodaeth ar ba gofrestrau sydd angen eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

## Rhoddion rydych chi wedi'u dychwelyd

Os ydych chi'n derbyn rhodd oddi wrth ffynhonnell sy'n anghaniataol mae rhaid ichi ei dychwelyd gan gofnodi'r manylion hyn:

- Swm neu natur y rhodd a'i gwerth.
- Y modd y gwnaethpwyd y rhodd.
- Y dyddiad y derbynioch chi'r rhodd.
- Y dyddiad y dychweloch chi'r rhodd.
- Sut y gweithredoch chi wrth ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, y person neu'r sefydliad y dychweloch chi'r rhodd ato).

# Pa roddion sydd angen ichi eu datgan?

Mae rhaid datgan rhai rhoddion penodol inni ac i'r cyhoedd. Rydyn ni'n cyhoeddi manylion ynghylch y symiau a'r rhoddwyr ar ein safwe. Dydyn ni ddim yn cyhoeddi cyfeiriadau'r unigolion sy'n gwneud rhoddion.

Mae rhaid ichi ddatgan:

- Pob rhodd sy'n anghaniataol.
- Pob rhodd ganiataol sy'n fwy na £7,500.
- Pob rhodd a benthyciad caniataol sy'n adio i wneud cyfanswm o fwy na £7,500 oddi wrth yr un ffynhonnell yn yr un cyfnod refferendwm.

# Sut ydych chi'n datgan rhoddion?

Mae rhaid ichi ddatgan rhoddion inni ar ôl y refferendwm, fel rhan o'ch cofnod gwariant, gan ddefnyddio'r manylion rydych chi wedi'u cofnodi.

Mae'r dyddiad terfynol ar gyfer adrodd inni yn dibynnu ar faint rydych chi'n gwario ar eich ymgyrch.

Byddwn ni'n cyhoeddi dyddiadau ar gyfer pob refferendwm yn ein canllawiau sy'n benodol i refferenda. Sut bynnag, fel canllaw, mae'r dyddiadau cau'n
ymddangos isod.

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **£250,000 neu'n is?**

Adroddwch o fewn **3 mis** o ddiwedd y refferendwm.

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **uwch na £250,000?**

Adroddwch o fewn **6 mis** o ddiwedd y refferendwm.

Efallai byddwch chi'n agored i gamau gorfodi os nad ydych chi'n cyflwyno'ch cofnod yn brydlon.

Am ragor o wybodaeth ar wariant ac ar ddatgan, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o wariant refferendwm

# Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500

Ebost: publications@electoralcommission.org.uk